**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

10 Awst 2022

Annwyl Mark

Yr Ymchwiliad i COVID-19 ledled y DU

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill 2022, yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd agwedd onest o ran Ymchwiliad i COVID-19 y DU, ac yn ymgysylltu'n llawn ac yn agored â'i waith. Diolch hefyd am gadarnhau mai Cadeirydd yr Ymchwiliad a fydd yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiadau'r Ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw adroddiadau interim.


Er bod safbwyntiau gwahanol o fewn y Pwyllgor ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus penodol yng Nghymru hefyd i'r modd yr ymdrinwyd â'r pandemig, ar ôl cyhoeddi Datganiad lansio'r ymchwiliad ar 21 Gorffennaf 2022, byddem yn croesawu cael:

1. Eich barn ynghylch a fydd y dull modiwlaidd a amlinellwyd yn y datganiad lansio, gan gynnwys y gwahanol ddulliau gweithredu o ran datganoli a gynigir ar gyfer pob un o'r tri modiwl cyntaf, yn sicrhau bod digon o ffocws penodol ar Gymru drwy gydol gwaith yr Ymchwiliad. Rydym yn nodi mai dim ond mewn perthynas â Modiwl 2 y bydd is-fodiwlau sy'n edrych yn benodol ar bob un o'r gwledydd datganoledig. Mae rhai pryderon wedi'u codi am y drefn hon, gan fod angen gofyn cwestiynau manwl hefyd am barodrwydd Cymru ar gyfer COVID a'i hymateb i'r feirws mewn perthynas â Modiwlau 1 a 3.

2. Gwybodaeth ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais, neu a fydd yn gwneud cais, i fod yn gyfranogwr craidd ar gyfer pob un o'r modiwlau a gyhoeddwyd hyd yma.

3. Cadarnhad a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i adroddiadau interim ac adroddiadau terfynol yr Ymchwiliad-er enghraifft i nodi a yw'n derbyn unrhyw argymhellion a wnaed, a pha gamau y bydd yn eu cymryd i'w gweithredu- ac a fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymatebion i holl adroddiadau'r Ymchwiliad.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.